



DISGRIFIAD SWYDDOGAETH

Y CYNGHORYDD BWRDEISTREF SIROL J. ELLIOTT

Mae'r Disgrifiad Swyddogaeth yma'n berthnasol i'ch swyddogaeth yn:

- Aelod Etholedig
- Aelod sy'n cynrychioli'r Adain Weithredol ar y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
- Cyfranogwr mewn rhaglen Datblygu Aelodau briodol

EICH SWYDDOGAETH YN AELOD ETHOLEDIG

Yn atebol:

- I'r Cyngor llawn
- I'r Etholwyr

Diben a Gweithgaredd y Swyddogaeth:

Cynrychioli a bod yn gefn i'ch etholwyr a'ch cymunedau:

- Cynrychioli buddiannau eich Adran Etholiadol.
- Hyrwyddo'r Cyngor yn eich Adran Etholiadol a'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu.
- Bod yn ddolen gyswllt â'r gymuned ynghylch strategaethau, gwasanaethau, polisiâu a gweithdrefnau'r Cyngor.
- Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau/mudiadau lleol, gan fynd ar ôl achosion unigol ar eu rhan a gwasanaethu pawb mewn modd teg a chyfartal.
- Cysylltu ag Aelodau Gweithredol, Aelodau eraill o'r Cyngor, Swyddogion y Cyngor a sefydliadau partner i sicrhau bod anghenion y cymunedau lleol yn cael eu hadnabod, eu deall a'u diwallu.
- Hyrwyddo goddefgarwch a chydlynid yn y cymunedau lleol.
- Ymateb i unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd (yn ôl yr angen) yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Gwneud penderfyniadau, a bwrw golwg ar gyflawniad y Cyngor:

- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn, dod i benderfyniadau gwybodus a chytbwys yn ôl yr wybodaeth briodol, a bwrw golwg ar gyflawniad y Cyngor.
- Parchu egwyddorion democratiaeth a chyfrifoldeb ar y cyd ynglŷn â dod i benderfyniadau.
- Hyrwyddo trefniadau effeithiol ac effeithlon parthed darparu gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- Hyrwyddo trefniadau effeithiol ac effeithlon parthed darparu gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Hyrwyddo trefniadau effeithiol ac effeithlon parthed darparu gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- Bod yn effro i'r Polisi Diogelu Corfforaethol a chynorthwyo'r Cyngor i gydymffurfio ag ef.

Dolen gyswllt i'r Polisi:

<http://inform/en/policiesandprocedures/otherpolicies/corporatesafeguardingpolicy.pdf>

Cynrychioli'r Adain Weithredol

- Cynrychioli'r Adain Weithredol ar y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

DATBLYGU AELODAU

- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor, a chynnal y safonau gorau posibl o ran ymddygiad a moeseg yn y ffordd byddwch chi'n ymgymryd â'ch dyletswyddau.
- Ymgymryd â hyfforddiant mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl ac anghenion hyfforddiant ychwanegol, e.e. mewn perthynas â'ch swyddogaeth briodol a fydd yn cael sylw yn rhan o'ch Adolygiad Datblygiad Personol parhaus.
- Manteisio ar gyfleoedd datblygu er mwyn gwella'ch dealltwriaeth o'ch swyddogaeth ar Bwyllgorau/Cyrff Allanol ac ati, byddwch chi wedi'ch penodi iddyn nhw.
- Manteisio ar gyfleoedd datblygu ar gyfer Aelodau/Cynghorwyr.

GWERTHOEDD

- Ymrwymo wrth werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
 - Bod yn agored a thryloyw
 - Bod yn onest a dilwgr
 - Bod yn oddefgar a pharchus
 - Bod yn anwahaniaethol a theg
 - Derbyn gwahaniaeth mewn diwylliant
 - Parchu cynaliadwyedd

LlofnodJ. Elliott.....

EnwJeffrey Elliott.....

Dyddiad ...28th February 2019.....